



## CABINET

### COFNODION Y CYFARFOD O BELL A GYNHALIWDY DRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD MERCHER, 24 MAWRTH 2021 AM 10.00 A.M

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd P. Marsden (Arweinydd) – Cadeirydd

Cynghorwyr:

S. Cook (Gofal Cymdeithasol), N. George (Gwastraff a Diogelu'r Cyhoedd), C. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd), J. Ridgewell (Amgylchedd ac Isadeiledd), E. Stenner (Perfformiad a Gwasanaethau i Gwsmeriaid) ac R. Whiting (Dysgu a Chyflawniad).

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai) ac M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro – Cymunedau).

Hefyd yn bresennol:

A. Cullinane (Uwch Swyddog Polisi – Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Ymgynghori), A. Dallimore (Rheolwr Gwasanaethau Adfywio), R. Kyte (Pennaeth Adfywio a Chynllunio), L. Lane (Pennaeth Gwasanaethau Democratiaid a Dirprwy Swyddog Monitro), S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Cyllid a Swyddog S151), K. Watkins (Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Thenantiaid), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), M. Harris (Chauffeur/Swyddog Cymorth Gwasanaethau Pwyllgor) a C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Y Cynghorydd K. Etheridge (Aelod Ward y Coed Duon)

Arsylwi – Y Cynghorydd C. Mann

#### TREFNIADAU RECORDIO A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd yr Arweinydd bawb a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio, oni bai bod y cyfarfod yn symud i sesiwn eithriedig, ac na fyddai'n cael ei ffrydio'n fyw, ond y byddai recordiad ar gael yn dilyn y cyfarfod ar wefan y Cyngor – [Cliciwch Yma i'w Wyllo](#). Dywedodd y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud drwy Microsoft Forms.

#### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd Ymddiheuriad am Absenoldeb gan y Cynghorydd S. Morgan (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros yr Economi a Menter).

## **2. DATGAN BUDDIANNAU**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

## **3. CABINET – 17 CHWEFROR 2021**

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Chwefror 2021 fel cofnod cywir.

## **4. CABINET – 24 CHWEFROR 2021**

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2021 fel cofnod cywir.

## **5. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET – I'W NODI**

Darparwyd y Cabinet â Blaenraglen Waith y Cabinet, a oedd yn nodi'r adroddiadau sydd wedi'u trefnu o 24 Mawrth 2021 tan 21 Ebrill 2021. Atgoffwyd yr Aelodau bod Blaenraglen Waith y Cabinet yn ddogfen weithio, ac felly mae'n bosib y bydd yn newid.

Trafododd y Cabinet Flaenraglen Waith y Cabinet, ac amlygwyd rhai diwygiadau, y cytunodd y Swyddogion i'w diweddarau.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid nodi'r Flaenraglen Waith. Trwy ddangos dwylo, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar y diwygiadau a nodwyd, nodi Blaenraglen Waith y Cabinet.

## **PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL NAD YDYNT YN DESTUN GALW I MEWN**

## **6. MATER EITHRIEDIG**

Ystyriodd yr Aelodau dystysgrif brawf budd y cyhoedd gan y Swyddog Priodol, a daethpwyd i'r casgliad, ar y cyfan, bod budd y cyhoedd o ran cynnal yr eithriad yn gorbwyso budd y cyhoedd o ran datgelu gwybodaeth a

PENDERFYNWYD yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 y byddai'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod tra bod yr eitem yn cael ei hystyried, oherwydd y tebygolrwydd y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu iddynt fel y nodwyd ym mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

## **7. RHAGLEN SAFLEOEDD STRATEGOL LLYWODRAETH CYMRU – CYFLEOEDD I NESS TAR, CAERFFILI. (HEB EI RECORDIO)**

Roedd yr adroddiad yn rhoi cyfle i'r Cabinet ystyried cynnig a gofynion Llywodraeth Cymru o ran benthyciad.

Atgoffwyd y Cabinet bod yr eitem hon wedi'i nodi fel eitem frys, gyda chytundeb gan y Maer, ac felly nad yw'n destun Galw i Mewn.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai'r argymhellion yn yr adroddiad gael eu cymeradwyo. Drwy bleidlais electronig, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a oedd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog, cymeradwyo'r argymhellion ym mharagraff 3.1.

Dechreuwyd recordio'r cyfarfod unwaith eto.

## 8. **CYNLLUN RHYDDHAD ARDRETHI MANWERTHU, HAMDDEN A LLETYGARWCH LLYWODRAETH CYMRU 2021/2022**

Roedd yr adroddiad yn darparu manylion i'r Cabinet ynghylch cyhoeddiad Llywodraeth Cymru (LIC) ynghylch cynllun rhyddhad ardrethi dros dro newydd i fusnesau. Bydd y 'Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch' ar gael ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 yn unig.

Nodwyd y bydd y rhyddhad ardrethi y bydd yr Awdurdod yn ei roi o dan y cynllun newydd hwn yn cael ei ad-dalu gan LIC drwy grant penodol arian-gyfyngedig, ond cyn y dyfernir rhyddhad, mae'n rhaid i'r Awdurdod ystyried a mabwysiadu'r cynllun newydd.

Roedd yr adroddiad yn argymhell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r cynllun rhyddhad ardrethi newydd yn unol â chanllawiau LIC, fel y nodwyd yn Atodiad 1.

Nododd y Cabinet fod mabwysiadu'r cynllun, fel sydd wedi'i nodi yn Atodiad 1, yn orfodol gan fod LIC wedi rhagnodi manylion ar gyfer y cynllun. Mae'n rhaid i'r Awdurdod fabwysiadu'r cynllun newydd yn ffurfiol fel sydd wedi'i nodi yn y canllawiau yn Atodiad 1 er mwyn cael cyllid grant LIC.

Atgoffwyd y Cabinet bod yr eitem hon wedi'i nodi fel eitem frys, gyda chytundeb gan y Maer, ac felly nad yw'n destun Galw i Mewn.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog a'r Aelod Cabinet am yr adroddiad, a dilynodd trafodaeth.

Mynegodd Aelod bryderon am y tîm sydd wedi gweithio'n ddiflino yn gweinyddu grantiau busnes, a gofynnodd a oedd capasiti digonol i weinyddu'r arian ychwanegol a gynigir, fel na fydd cynnydd yn y pwysau ar y gwasanaeth. Rhoddodd y Swyddog sicrwydd i'r Cabinet, er bod y tîm wedi bod yn gweithio'n arbennig o galed i weinyddu'r grantiau, pe bai'r argymhellion yn cael eu cymeradwyo, bydd yr arian yn cael ei weinyddu fel rhan o'r broses awtomatig, sef y rheswm pam fod yr adroddiad yn un brys, a bydd yn lleihau pwysau ar y staff.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai'r argymhellion yn yr adroddiad gael eu cymeradwyo. Drwy bleidlais electronig, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a oedd wedi'u cynnwys yn Adroddiad y Swyddog:

- i) Cymeradwyo 'Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch 2021/2' (Cynllun 2021/22) yn unol â'r canllawiau a nodwyd yn Atodiad 1 Adroddiad y Swyddog a darpariaethau adran 47(1)(a) ac adran 47(3) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988;
- ii) Nodi y bydd Pennaeth y Gwasanaethau Cyllid a'r Swyddog S151 yn defnyddio grymoedd dirprwyedig i ddyfarnu'r rhyddhad;
- iii) Cefnogi'r cynnig a nodwyd ym mharagraff 5.6 er mwyn cynyddu ei ddefnydd ymhlith trethdalwyr ac i leihau costau gweinyddol ar gyfer yr Awdurdod; bydd y rhyddhad ardrethi yn cael ei roi'n uniongyrchol ar filiau trethdalwyr cymwys yn seiliedig ar gofnodion sydd gan Dîm Ardrethi Busnes y Cyngor;

- iv) Y bydd Swyddogion yr Awdurdod yn sicrhau bod y gymuned fusnes yn ymwybodol o Gynllun 2021/22 drwy ei sianeli arferol, gan gynnwys y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol. Yn ogystal, os nad yw busnes yn cael rhyddhad ardrethi drwy'r broses a nodwyd ym mharagraff 5.6, y bydd gofyn iddynt gyflwyno e-bost yn egluro sut maen nhw'n ateb meini prawf y cynllun er mwyn galluogi'r Tîm Ardrethi Busnes i bennu eu cymhwysedd ai peidio.

## **PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL SY'N DESTUN GALW I MEWN**

### **9. CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL – ADRODDIAD MONITRO A GWELLA BLYNYDDOL 2019-2020**

Roedd yr adroddiad yn hysbysu'r Cabinet am y cynnydd a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2019-2020 yn erbyn targedau yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020 cyfredol y Cyngor, a gofynnwyd i'r Cabinet ei gymeradwyo er mwyn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Nodwyd bod gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gynhyrchu adroddiad monitro blynyddol ar faterion Cydraddoldeb o dan y ddeddfwriaeth gyfredol. Mae'r gofynion yn fanwl iawn o ran pa wybodaeth berthnasol y mae'n rhaid ei chynnwys yn yr adroddiad monitro a gwella blynyddol (maent wedi'u cynnwys yn llawn fel atodiad).

Felly, cyflwynir y lefel honno o wybodaeth er mwyn sicrhau bod y corff rheoleiddio dan sylw (y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol) yn cael tystiolaeth lawn o gydymffurfiaeth ac ymrwymiad y Cyngor i'r dyletswyddau statudol hynny.

Rhaid cyhoeddi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol – Adroddiad Monitro a Gwella Blynyddol erbyn 31 Mawrth y flwyddyn ganlynol.

Yn ogystal, roedd y Swyddog yn dymuno iddo gael ei nodi y dylai pwynt 5.4 o'r adroddiad ddarllen "Mae'r adroddiad yn dangos cynnydd y Cyngor yn ystod blwyddyn ariannol 2019-2020 yn erbyn targedau yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020 y Cyngor".

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad, a dilynodd trafodaeth.

Trafododd yr aelodau yr adroddiad yn fanwl a chodwyd sawl ymholiad ynghylch y data a'r wybodaeth, gan gynnwys effaith y pandemig ar wasanaethau a defnyddwyr gwasanaeth ac eglurhad ar ddata ynghylch digwyddiadau gwahaniaethol mewn ysgolion. Esboniodd Swyddogion fod gwaith yn mynd rhagddo fel rhan o gynlluniau adfer ar ôl Covid i sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch i holl aelodau'r fwrdeistref, ac y bydd gofyn am eglurhad pellach gan yr Adran Addysg ynghylch y digwyddiadau gwahaniaethol yn nata ysgolion ac y bydd yn cael ei ddosbarthu i'r Cabinet.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai'r argymhelliad yn yr adroddiad gael ei gymeradwyo. Drwy bleidlais electronig, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn Adroddiad y Swyddog, cymeradwyo'r adroddiad monitro a gwella blynyddol i'w gyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn y dyddiad cau ar 31 Mawrth.

### **10. ADOLYGIAD O'R POLISI CWYNION CORFFORAETHOL A'R POLISI YMDDYGIAD ANNERBYNIOL**

Roedd yr adroddiad a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 19 Mawrth 2021 yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar y Polisi Pryderon a Chwynion enghreifftiol yn Atodiad 1 yr adroddiad, sy'n seiliedig ar y ddogfen enghreifftiol a gyhoeddwyd gan yr Ombwdsmon ynghyd â'r Datganiad Egwyddorion cysylltiedig sydd wedi'i atodi yn Atodiad 2. Mae'r egwyddorion hyn yn sail i'r broses o drin cwynion.

Yng ngoleuni cyflwyno'r polisi enghreifftiol newydd, teimlwyd ei bod yn amserol gofyn i'r Cabinet adolygu a chymeradwyo darpariaethau'r Polisi presennol ar gyfer delio â gweithredoedd Annerbyniol, Parhaus neu Afresymol gan Achwynwyr. Gofynnwyd i'r Cabinet hefyd gefnogi'r mecanweithiau adrodd, fel y nodir ym mharagraff 5.11 adroddiad y Swyddog.

Rhannodd y Swyddog y safbwyntiau a'r sylwadau o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2021 gyda'r Cabinet, a fe'u nodwyd gan y Cabinet.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad, a dilynodd trafodaeth.

Trafododd yr aelodau yr adroddiad yn fanwl, a chafwyd ymholiadau ynghylch yr ymateb i gwynion yn ystod y pandemig a fformat yr ymateb. Nodwyd y bu rhywfaint o oedi, lle nad oedd achwynwyr wedi cael ymateb ymhen y 10 diwrnod a nodir, ond cawsant y wybodaeth ddiweddaraf am y broses a rhoddwyd gwybod iddynt beth oedd y rhesymau dros unrhyw oedi. Sicrhawyd yr aelodau bod yr holl ymatebion i gwynion yn cael eu darparu yn yr un fformat ag y cawsant eu derbyn.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai'r argymhellion yn yr adroddiad gael eu cymeradwyo. Trwy bleidlais electronig, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a oedd wedi'u cynnwys yn Adroddiad y Swyddog:

- i) Ystyried safbwyntiau'r Pwyllgor Archwilio, a chytuno i'r Polisi Pryderon a Chwynion enghreifftiol yn Atodiad 1 o Adroddiad y Swyddog, y Datganiad Egwyddorion yn Atodiad 2, a'r Polisi Gweithredoedd Annerbyniol, Parhaus neu Afresymol gan Achwynwyr yn Atodiad 2;
- ii) Cytuno ar y mecanweithiau adrodd fel bod y Cabinet yn cael adroddiadau ddwywaith y flwyddyn.

## **11. PAPUR GWYN AR AILGYDBWYSO GOFAL A CHYMORTH – CYFLWYNIAD.**

Yn dilyn trafodaeth ac am y rhesymau a amlinellwyd yn y cyfarfod, cytunwyd y byddai'r eitem yn cael ei gohirio i ddyddiad yn y dyfodol a'i haildrefnu ar Flaenraglen Waith y Cabinet.

## **12. FFERM WYNT PEN MARCH – MEMORANDWM CYD-DDEALLTWRIAETH**

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i fynd i Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth nad yw'n gyfreithiol rwymol gyda chwmni ynni adnewyddadwy RWE, ar gyfer datblygu fferm wynt arfaethedig ar dir uwch ben y Rhymni.

Nodwyd y cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol rhwng y Cyngor ac RWE ynghylch y posibilrwydd o ddatblygu fferm wynt dan gyd-berchnogaeth ar dir preifat i'r gogledd o'r Rhymni.

Mae RWE yn awyddus i symud ymlaen gyda'r datblygiad hwn, ac yn gofyn i'r Cyngor arwyddo'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth er mwyn rhoi tawelwch meddwl iddynt i roi adnoddau i fodelu'r opsiynau cyd-berchnogaeth i'w hystyried.

Nodwyd, os datblygir model sy'n addas i'r ddwy ochr, y byddai'r Cyngor yn ystyried cymryd 'cyfran' yn y datblygiad. Yn syml, mae'n debygol y bydd hyn yn cynnwys canran o'r gost adeiladu. Yna, byddai'r Cyngor yn cael enillion o'r un ganran drwy'r refeniw a gynhyrchir drwy'r prosiect. Bydd y Cyngor hefyd yn defnyddio'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i archwilio'r opsiwn o gynyddu'r manteision cymunedol a briodolir i'r prosiect.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad, a dilynodd trafodaeth.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai'r argymhellion yn yr adroddiad gael eu cymeradwyo. Trwy bleidlais electronig, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a oedd wedi'u cynnwys yn Adroddiad y Swyddog: –

- i) Cymeradwyo llofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth nad yw'n gyfreithiol rwymol;
- ii) Cymeradwyo y bydd Swyddogion yn gweithio gyda RWE a Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth er mwyn iddo adlewyrchu dyheadau'r Cyngor ar gyfer y cynllun.
- iii) Cymeradwyo y bydd Swyddogion yn gweithio gyda RWE i archwilio modelau cyd-berchnogaeth; a
- iv) Cymeradwyo y bydd opsiynau ar gyfer y model cyd-berchnogaeth yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ar ddyddiad yn y dyfodol i'w trafod ymhellach.

### **13. TALIADAU PARCIO CEIR**

Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad i'r Cabinet ar y sefyllfa ddiweddaraf o ran yr effaith Economaidd ar ganol trefi a achoswyd gan bandemig y coronafeirws, gan argymhell cyfnod pellach o barcio am ddim i gefnogi'r economi leol.

Nodwyd bod llawer o fusnesau yn y Fwrdeistref Sirol wedi wynebu heriau sylweddol o ganlyniad i Covid-19 a'r cyfnodau clo a/neu 'r cyfyngiadau masnachu o ganlyniad iddo. Roedd hyn yn cynnwys llawer o fusnesau canol trefi ac yn enwedig sector lletygarwch canol trefi.

Mae cefnogi canol trefi yn elfen allweddol o strategaeth adfywio drosfwaol y Cyngor (Sylfaen ar gyfer Llwyddiant) a'r Uwchgynlluniau Adfywio Ardal sy'n dod o dan y strategaeth gyffredinol.

Mae hyd cyfnodau clo Llywodraeth Cymru a'r cyfyngiadau ar y sector manwerthu a lletygarwch wedi rhoi pwysau sylweddol ar y stryd fawr a busnesau yng nghanol ein trefi. Mae hyn yn golygu bod y sefyllfa economaidd yn parhau i fod yn hynod heriol i'r busnesau hynny yng nghanol trefi.

Nodwyd bod y Prif Weithredwr, ar ôl ymgynghori â'r Arweinydd, Aelodau'r Cabinet a Swyddog Dros Dro Adran 151, wedi gwneud penderfyniad ar 17 Mehefin 2020 drwy bwerau dirprwyedig i atal taliadau parcio ceir tan 31 Rhagfyr 2020 fel rhan o gynllun adfer economaidd Covid. Ar 9 Rhagfyr 2020, gwnaeth y Cabinet benderfyniad pellach i ymestyn y broses o atal taliadau parcio ceir tan 31 Mawrth 2021.

Yng ngoleuni'r heriau economaidd a chyfyngiadau masnachu parhaus, mae'r adroddiad hwn felly'n ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ymestyn yr ataliad taliadau parcio ceir tan 30 Medi 2021.

Croesawodd y Cabinet y Cyngorydd K. Etheridge – Aelod Ward y Coed Duon, a ddiolchodd i'r Cabinet a'r Swyddogion am y cynnig i ohirio Taliadau Parcio Ceir yng Nghanol Trefi ymhellach tan fis Medi, ond gofynnodd a fyddai'n bosibl eu gohirio tan fis Ebrill 2022, er mwyn i fusnesau allu manteisio ar gyfnod yr Hydref a'r Nadolig ac annog mwy o ymwelwyr i ganol y trefi. Yn ogystal, gofynnodd y Cyngorydd Etheridge i'r Cabinet ystyried dileu taliadau yn barhaol, gan ddefnyddio cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Canol Trefi, sy'n cael ei ddefnyddio mewn Awdurdodau Lleol eraill.

Diolchodd y Cabinet i'r Cyngorydd am y sylwadau ac ymatebodd y Swyddog i'r pwyntiau. Nodwyd y bydd taliadau parcio ceir yn cael eu hadolygu ym mis Medi, ond gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y goblygiadau ariannol o ddileu taliadau yn barhaol. Yn ogystal, sicrhawyd y Cabinet bod y cyllid benthyciad gan Lywodraeth Cymru y cyfeiriodd y Cyngorydd Etheridge ato wedi'i ddyfarnu i'r Awdurdod Lleol, ond bod y cyllid i'w ddefnyddio'n gyffredinol ar gyfer gwariant un tro fel rhan o agenda adfywio a llywio lleoedd, ac nad yw wedi'i fwriadu fel disodliad hirdymor ar gyfer ffrydiau cyllid refeniw fel incwm taliadau mewn meysydd parcio.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth, a rhoddwyd sicrwydd y bydd Taliadau Parcio Ceir yn cael eu hadolygu ym mis Medi.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai'r argymhellion yn yr adroddiad gael eu cymeradwyo. Trwy bleidlais electronig, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a oedd wedi'u cynnwys yn Adroddiad y Swyddog: –

- i) Cymeradwyo'r estyniad pellach i'r ataliad dros dro ar ffioedd meysydd parcio tan 30 Medi 2021, gydag adolygiad pellach ar yr adeg honno;
- ii) Cytuno y bydd y diffyg incwm amcangyfrifedig o oddeutu £324 mil yn cael ei ariannu o'r Gronfa Wrth Gefn Ddynodedig Covid-19 gwerth £2.713 miliwn a gymeradwywyd gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 10 Medi 2020.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.09am.

Wedi'i gymeradwyo a'i lofnodi fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhelir ar 7 Ebrill 2021.

---

CADEIRYDD